**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Chwilog**
**Neuadd Goffa Chwilog**
**Chwilog**
**Gwynedd**
**LL53 6SH**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2013**

**gan**

**Wil Williams**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 31/05/2013**

## Cyd-destun

Cafodd y Cylch Meithrin ei sefydlu deugain mlynedd yn ôl ar gyfer darparu addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg i bentref Chwilog a'r ardal gyfagos. Mae'n cyfarfod yn Neuadd Goffa'r pentref ac yn cynnal sesiynau o ddwy awr a hanner am bedwar bore'r wythnos ar gyfer plant tair i bedair oed, er bod y nifer o sesiynau a fynychir gan unigolion yn amrywio yn ôl dymuniad rheini. Ar hyn o bryd, mae saith plentyn tair oed wedi'u cofrestru yn y lleoliad ac yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol.

Ym marn y lleoliad, nid yw'r ardal a wasanaethir ganddo yn un ffyniannus nac ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol. Caiff plant o bob gallu a chefndir eu derbyn i'r lleoliad. Yn ystod yr arolygiad, roedd ychydig o blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad. Nid oedd yr un plentyn o dras ethnig wedi'i gofrestru yn y lleoliad.

Cymraeg yw'r iaith a siaredir gartref gan y rhan fwyaf o'r plant. Nid oes yr un plentyn yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Prif gyfrwng addysgu a dysgu'r lleoliad yw Cymraeg.

Mae dwy ymarferydd llawn-amser ac un rhan-amser yn cefnogi addysg y plant, yn ogystal ag un ymarferydd arall sy'n rhoi cymorth penodol i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae pob ymarferydd gyda chymwysterau priodol ar gyfer addysgu'r blynyddoedd cynnar.

Mae un ystafell fawr ei maint, cegin a thoiledau ar gael i'r lleoliad. Er nad oes ardal ddysgu bwrpasol y tu allan, mae buarth yr ysgol ar gael i blant y lleoliad yn ystod y rhan fwyaf o'r sesiynau.

Wedi iddynt orffen eu cyfnod yn y lleoliad, bydd plant yn trosglwyddo i'r ysgol gynradd leol ac eraill o ysgolion yr ardal.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru yn Nhachwedd 2012 a chan Estyn ym Mehefin 2007.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yn dda oherwydd bod:

- bron pob plentyn yn gwneud cynnydd da yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau;
- medrau llafar y rhan fwyaf o'r plant yn gadarn iawn;
- agweddau'r holl blant tuag at gadw'n iach a diogel yn gadarnhaol iawn;
- rhan fwyaf y plant yn cydweithio'n gytûn ac yn ystyriol o deimladau plant eraill o'u cwmpas;
- profiadau dysgu diddorol yn bodloni anghenion yr holl ystod o blant yn dda;
- gan ymarferwyr wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac maent yn disgwyl llawer gan bob plentyn; a'r
- adeilad a'r ystafelloedd o ansawdd da a chyflenwad addas o adnoddau ar gyfer bron pob maes dysgu.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- gan yr arweinydd weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad ac mae ganddi wybodaeth drylwyr o gryfderau'r lleoliad a'r meysydd sydd angen eu datblygu;
- aelodau'r pwyllgor rheoli yn cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol iawn;
- y lleoliad wedi ymateb yn gadarnhaol iawn i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol;
- gan yr arweinydd wybodaeth drylwyr o gryfderau'r lleoliad a'r meysydd sydd angen eu datblygu; a
- nifer dda o bartneriaid yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles plant.

## Argymhellion

R1. Cynyddu gallu plant i ddefnyddio rhaglenni cyfiriadurol i wahanol bwrpasau.

R2. Dirprwyo mwy o gyfrifoldebau i ymarferwyr.

R3. Cryfhau cysylltiadau rhwng y lleoliad a'r ysgol gynradd.

R4. Sicrhau bod gan y pwyllgor rheoli rôl weithredol ym mhrosesau hunan-arfarnu.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**
Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae medrau cyfathrebu Cymraeg, ac yn arbennig medrau llafar, y rhan fwyaf o'r plant yn gadarn iawn. Wrth iddynt gyfrannu mewn sesiynau torfol neu wrth gyfathrebu gydag oedolion, mae llawer o'r plant yn mynegi eu teimladau a'u syniadau'n glir ac yn gofyn cwestiynau meddylgar. Yn yr ardal chwarae rôl mae llawer o'r plant yn defnyddio iaith sy'n briodol i'r person maent yn ei gymeriadu. Mae gan y rhan fwyaf ddiddordeb mewn llyfrau, maent wedi dysgu dal llyfr yn gywir a gallant drafod cynnwys eu hoff storïau mewn modd diddorol. Yn ystod sesiwn stori, mae bron y grŵp cyfan yn cyffroi â chynnwys y llyfr ac yn ymateb ar lafar yn frwdfrydig iawn. Trwy arbrofi gyda gwahanol gyfryngau i greu marciau, mae llawer o'r plant gyda dealltwriaeth briodol o wahanol ddibenion ysgrifennu gyda lleiafrif ohonynt wedi dechrau ysgrifennu llythrennau cyfarwydd yn annibynnol.

Gwna'r ychydig o blant sy'n dysgu'r Gymraeg gynnydd priodol yn eu gallu i ddysgu a defnyddio'r iaith. Mae pob un yn deall llawer mwy o Gymraeg nag y maent yn ei ddefnyddio.

Wrth eistedd ar y mat ar gychwyn sesiynau, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cydgyfrif hyd at ddeg a thu hwnt yn hyderus iawn, ac yn gallu datgan bod mwy o ferched na bechgyn yn y grŵp. Gwna'r rhan fwyaf gynnydd da wrth ddefnyddio iaith fathemateg i gymharu maint a phwysau gwrthrychau ac mae ganddynt ddealltwriaeth elfennol o siâp a ffurf.

Gwna'r rhan fwyaf o'r plant ddefnydd priodol o fotymau a switsys wrth ddefnyddio camera i dynnu llun gwrthrychau yn y dosbarth neu i reoli tegan sy'n gweithio gyda batri. Fodd bynnag, nid yw llawer ohonynt wedi datblygu eu dawn greadigol trwy ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol i dynnu llun neu i symud gwrthrychau ar y sgrin.

**Lles: Da**

Mae agweddau'r holl blant tuag at gadw'n iach a diogel yn gadarnhaol iawn. Maent yn deall bod bwyta'n iachus, megis yn ystod byrbrydau, ac ymarfer corfforol rheolaidd ar fuarth yr ysgol yn llesol i'w hiechyd. Dywed unigolion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad a'u bod yn gwybod at bwy i droi os cânt eu haflonyddu'n gorfforol neu'n eiriol gan blant eraill.

Mae bron pob plentyn yn cyfranogi'n gadarnhaol mewn dysgu a' i fwynhau. Ag ystyried eu hoedran a'u hanghenion personol, mae ymddygiad bron pob plentyn o safon uchel. Mae llawer ohonynt yn gwrtais ac yn ystyriol o deimladau plant eraill ac yn ymddwyn mewn ffordd ofalus tuag at ei gilydd. Yn ddiwahân, mae gan blant ymddiriedaeth gref yn y gofal a'r consyrn sydd gan oedolion trostynt.

Ar y cyfan, mae plant yn ymagweddu'n gadarnhaol tuag at brofiadau dysgu. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddiddordeb yn y gweithgareddau a gynigir iddynt neu y maent yn eu dewis eu hunain, ac maent yn dal ati nes gorffen y dasg.

Yn ystod sesiynau dan do neu yn yr awyr agored, mae’r rhan fwyaf o’r plant yn cydweithio’n gytûn.  Maent wrth eu boddau yn ymgymryd â chyfrifoldebau ‘helpwr y dosbarth’ gyda’r rhan fwyaf ohonynt, yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif.

| Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Da**

Mae profiadau dysgu diddorol ac ysgogol yn bodloni anghenion a diddordebau'r holl ystod o blant yn dda ac yn eu hannog i ddysgu'n effeithiol a gwneud cynnydd da ar draws bron pob maes dysgu.  Mae dysgu wedi ei seilio ar gynlluniau cwricwlaidd manwl sy'n adlewyrchu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn gryf ac yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y plant.  Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored yn effeithiol i annog plant i arbrofi â phrofiadau newydd a datblygu eu medrau yn effeithiol.  Caiff plant gyfleoedd mynych i arwain eu dysgu eu hunain ac i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol.  Mae'r plant yn ymweld â'r gymuned leol yn rheolaidd ac yn dysgu llawer oddi wrth ymwelwyr â'r lleoliad.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cyfathrebu, rhifedd, medrau meddwl a datrys problemau yn gydlynol ac wedi'u hymgorffori'n gadarn ym mhrofiadau dysgu’r plant.  Fodd bynnag, oherwydd prinder adnoddau priodol, digonol yn unig yw’r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Caiff plant rôl weithredol yng ngweithgareddau'r lleoliad ar gyfer ailgylchu deunyddiau ac arbed ynni.  Darperir cyfleoedd o ansawdd da iddynt ddatblygu eu hunaniaeth bersonol a diwylliannol.  Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o ddiwylliant, gwyliau a thraddodiadau Cymru yn llwyddiannus ac yn rhoi cyfleoedd da iddynt ddysgu am eu rôl fel dinasyddion byd-eang.

**Addysgu:  Da**

Mae gan ymarferwyr wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth fanwl o ofynion meysydd y Cyfnod Sylfaen.  Maent yn disgwyl llawer gan blant o bob gallu ac yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd gwerthfawr iddynt fod yn weithredol yn eu dysgu.  Trwy gynllunio manwl yr arweinydd, llwydda'r ymarferwyr i greu cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn a rhai gaiff eu hysgogi neu eu harwain gan oedolion.  Mae'r amrywiaeth eang o strategaethau addysgu a ddefnyddir ynghyd â'r pwyslais sylweddol a roddir ar ddysgu trwy chwarae, yn sicrhau ymglymiad pob unigolyn i'r dasg dan sylw. Yn ystod sesiynau, mae ffocws clir i gymorth ac ymyrraeth ymarferwyr. Maent yn fodelau iaith da eu hunain ac yn defnyddio holi’n grefftus er mwyn herio syniadau plant a symud dysgu yn ei flaen.

Mae’r arweinydd yn asesu plant yn rheolaidd ac yn cofnodi arsylwadau ac asesiadau’n ofalus i fesur cynnydd plant.  Caiff deilliannau asesu eu defnyddio’n effeithiol i gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol sy’n cyfateb i anghenion plant.  Mae trefniadau da ar gyfer cynnwys rhieni yn asesiadau eu plant a sicrhau bod ganddynt wybodaeth dda am gynnydd eu plant a’r hyn y gallant hwy ei wneud i’w helpu i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo iechyd a lles plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.  Mae’r profiad dyddiol gaiff plant o weithio yn yr ardal y tu allan, ac o bryd i’w gilydd yn yr ardal leol, yn cael effaith lesol ar eu datblygiad ysbrydol a chorfforol ac yn codi eu hymwybyddiaeth o harddwch y byd o’u cwmpas.  Yn ystod eu hymwneud dyddiol â phlant, mae ymarferwyr yn pwysleisio’n gryf yr angen i bawb fod yn garedig tuag at ei gilydd, i fod yn onest a theg ac i ymddwyn mewn ffordd gyfrifol.  Mae hyn yn help mawr i’r plant ddysgu gwahaniaethu rhwng yr hyn sy’n iawn a’r hyn sydd ddim yn iawn.  Mae’r cyfleoedd rheolaidd i blant ymgymryd â chyfrifoldebau megis ‘helpwr y dydd’ ac i wneud dewisiadau eu hunain ynghylch eu dysgu yn cyfrannu’n arwyddocaol tuag at eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae’r trefniadau sefydlu effeithiol yn helpu plant i ymgartrefu’n gyflym a didrafferth yn y lleoliad.  Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu arweiniad clir iddynt yn ystod sesiynau.  Mae dealltwriaeth dda gan yr ymarferwyr ynghylch sut i gael mynediad at gymorth proffesiynol i blant a rhieni.

Caiff anghenion dysgu plant eu nodi’n fanwl pan fyddant yn ymuno â’r lleoliad a bydd ymarferwyr yn gwneud yn siŵr bod yr anghenion hyn yn cael eu bodloni.  Mae’r cymorth a’r gefnogaeth a ddarperir ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol ac yn galluogi’r plant hyn i wneud cynnydd da yn eu medrau personol a chymdeithasol ac i ddatblygu eu hannibyniaeth fel dysgwyr.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn hawl cyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau ar ddarperir.  Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar ac ar sicrhau bod plant ac aelodau staff yn rhydd o unrhyw aflonyddwch.  Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd digonol i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Mae cyflenwad da o adnoddau o ansawdd da ym mhob maes dysgu ac eithrio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Maent wedi eu gweddu'n ofalus i ddatblygiad ac anghenion dysgu pob unigolyn. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd gorau posib o fuarth yr ysgol i gyfoethogi profiadau dysgu plant ac i hybu eu medrau corfforol. Caiff adnoddau, ynghyd ag aelodau’r gymuned, eu defnyddio'n bwrpasol i gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth.  Mae’r adeilad a'r ystafelloedd o ansawdd da ac yn cael eu defnyddio'n helaeth.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad ac mae'n gyson yn archwilio ffyrdd i godi safonau a gwella ansawdd y ddarpariaeth. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ac mae'n herio ei chydweithwyr i ymdrechu orau y gallant er mwyn sicrhau darpariaeth o ansawdd dda ar gyfer y plant dan eu gofal. Caiff pob sesiwn ei threfnu'n feddylgar ac mae diben clir i bob gweithgaredd fel y defnyddir amser plant a staff yn effeithiol. Mae cyd-ddealltwriaeth dda rhwng yr arweinydd a'r ymarferwyr sy'n rhannu'r un gwerthoedd a disgwyliadau am ddysgu, ymddygiad a pherthynas. Er bod rolau pob ymarferydd wedi eu diffinio'n glir yn ystod sesiynau, nid oes trefniadau addas ar gyfer dirprwyo dyletswyddau rheolaethol penodol i unigolion. O ganlyniad, mae baich cyfrifoldebau'r arweinydd yn rhy drwm.

Mae system effeithiol o werthuso perfformiad yr arweinydd a'r ymarferwyr wedi'i sefydlu. Mae hyn yn arwain at dargedau cytûn ac at welliannau mewn addysgu a darpariaeth.

Mae'r cysylltiadau cynhyrchiol a ffurfiwyd gyda'r rhieni a phartneriaid lleol a sirol eraill yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at ddatblygiad y lleoliad.

Cyflawna aelodau'r pwyllgor rheoli eu dyletswyddau yn gydwybodol ac effeithiol iawn. Maent yn gweithredu mewn modd cyfansoddiadol ac mae perthynas waith agos rhyngddynt a'r lleoliad. Gwnânt yn sicr bod y lleoliad yn cwrdd â'r gofynion statudol a'u bod ar gael i gefnogi a rhoi cymorth i'r arweinydd. Fodd bynnag, nid oes ganddynt rôl weithredol yn y prosesau hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant ac mae yn amharu ar eu gallu i ddylanwadu ar ddatblygiad y lleoliad.

Mae'r lleoliad wedi ymateb yn gadarnhaol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, megis y Cyfnod Sylfaen ac asesu ar gyfer dysgu, ac mae hyn wedi arwain at welliannau mewn safonau a darpariaeth.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr arweinydd wybodaeth dda o gryfderau'r lleoliad a'r meysydd sydd angen eu datblygu. Mae'n hunan-arfarnu'n barhaus ac yn ymgynghori gyda staff a rhieni wrth bennu meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae trefniadau cadarn wedi'u sefydlu ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith mewn meysydd sydd angen gwelliant.

Mae'r adroddiad hunan-arfarnu a'r cynllun gwella o ansawdd da ac yn rhoi cyfeiriad clir i ddatblygiad y lleoliad. Caiff y blaenoriaethau a nodir eu gweithredu'n systematig a thrylwyr gan yr arweinydd. Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd digonol i ymarferwyr gyfrannu i hunan-arfarnu.

Mae ymarferwyr yn cael cefnogaeth gref gan raglen datblygiad proffesiynol parhaus a ddarperir yn bennaf gan yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Mae hyn wedi'u galluogi i gaffael gwybodaeth a medrau newydd ac i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn

llwyddiannus.  Mae’r sesiynau hyfforddi hefyd yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt rannu eu harfer gydag ymarferwyr o leoliadau eraill.

Mae'r lleoliad yn datblygu’n dda fel cymuned ddysgu gref.  Mae'r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac maent yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio a rhannu gwybodaeth a syniadau ymhlith ei gilydd.  Mae’r arfer o ymweld â lleoliadau eraill er mwyn arsylwi arferion da, wedi arwain at welliannau mewn safonau a darpariaeth.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae’r barneriaeth gynhyrchiol mae’r lleoliad wedi’i meithrin gyda nifer dda o bartneriaid yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles plant.  Mae ymddiriedaeth a chyfathrebu clir rhwng y lleoliad a’r rhieni  Darperir cyfleoedd cyson i rieni fynegi barn ar waith y lleoliad.  Mae’r ymarferwyr ar gael iddynt ar gychwyn a diwedd pob sesiwn a gwneir yn siŵr bod gan rieni wybodaeth gyfredol am drefniadaeth y lleoliad a datblygiad eu plant.

Yn ddiweddar, llwyddodd y lleoliad i gryfhau’r bartneriaeth rhyngddo a’r ysgol gynradd gyfagos.  Mae hyn wedi hwyluso trefniadau trosglwyddo plant ac wedi dechrau arwain at well cydweithio rhwng y ddau sefydliad.  Er hynny, mae’r trefniadau hyn yn eu dyddiau cynnar o ddatblygiad.

Mae’r lleoliad yn cydweithio’n effeithiol gyda nifer dda o wasanaethau cynhaliol yr awdurdod lleol i gydlynu a chyflwyno profiadau dysgu ac i sicrhau bod cymorth priodol ar gael i blant a rhieni.  Mae ymweliadau rheolaidd a chyngor proffesiynol yr athrawes gefnogol yn galluogi’r arweinydd i ddiweddaru eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth broffesiynol ac arbrofi gyda blaengareddau newydd

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n dda i addysgu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol. Caiff staff eu defnyddio’n effeithiol i wneud y defnydd gorau posib o'u hamser, eu harbenigedd a'u profiad.  Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth fanwl o'u cyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad.  Caiff penderfyniadau gwariant eu harfarnu'n hynod o ofalus gan yr arweinydd i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar safonau, cynnydd a lles plant.

Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**
Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni gan mai nifer fach o ymatebion a ddaeth i law (llai na 10).

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad a'u bod yn hyderus i droi at unrhyw oedolyn i ofyn am gyngor neu arweiniad.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |